Cofnodion cyfarfod Cyngor Dinas Bangor a gynhaliwyd yn Neuadd y Penrhyn a thrwy fideo-gynadledda Teams ar **08 Medi 2025** am 6.30 pm.

**YN BRESENNOL:-** Ei Deilyngdod y Maer, y Cynghorydd Medwyn Hughes (Cadeirydd), Cyng. Delyth Russell (Dirprwy Faer), Cyng. Steve Bell, Cyng. Dylan Fernley, Cyng. John Wynn Jones, Cyng. Elin Walker Jones, Cyng. Gareth Parry, Cyng. Gareth Roberts, Cyng. Gwynant Roberts, Cyng. Eirian Williams Roberts, Cyng. Jackie Spence a'r Cyng. John Wyn Williams.

**Swyddogion:-** Martin Hanks (Cyfarwyddwr Dinesig), Carwyn Davies (Swyddog Gweinyddol) a Rhiannon Elis-Williams (Cyfieithydd).

**31/25 YMDDIHEURIADAU:** Cyng. Salamatu Fada, Cyng. Simon Hibbs, Cyng. Huw Wyn Jones, Cyng. Michael Pattison , Cyng. Nigel Pickavance a'r Cyng. Lisa Toth.

**32/25 DATGANIAD O FUDDIANT ARIANNOL NEU GYSYLLTIAD PERSONOL**

Dim

**33/25 PENODI CYNGHORYDD I SEDD WAG WARD MENAI**

Roedd tri ymgeisydd ar gyfer sedd wag Ward Menai. *Roedd enwau'r ymgeiswyr wedi cael eu hanfon ymlaen llaw at yr aelodau cyn y cyfarfod hwn.*

Dim ond un ymgeisydd oedd yn bresennol yn y cyfarfod.

**PENDERFYNWYD:** Yn absenoldeb yr ymgeiswyr eraill pleidleisiwyd i gyfethol y Cynghorydd Nick Pritchard i sedd wag Ward Menai.

**34/25 CYMERADWYO COFNODION CYFARFODYDD Y CYNGOR AR Y 9 MEHEFIN 2025 A 30 MEHEFIN 2025**

**PENDERFYNWYD:** Cymeradwyo cofnodion cyfarfodydd y Cyngor ar y 9 Mehefin a’r 30 Mehefin 2025 fel cofnod gwir a chywir o’r cyfarfodydd.

**35/25 ADRODDIAD Y CYFARWYDDWR DINESIG**

*Roedd yr adroddiad wedi cael ei ddosbarthu cyn y cyfarfod.*

Tynnodd y Cyfarwyddwr Dinesig sylw at ychydig o bwyntiau o'i adroddiad gan gynnwys:-

i) Mae gennym sedd wag newydd, y tro hwn yn Ward Hirael, yn dilyn ymddiswyddiad y (cyn) Gynghorydd Roberts. Ar hyn o bryd rydym yn aros i Gyngor Gwynedd ddarparu'r hysbysiadau angenrheidiol i benderfynu a oes angen isetholiad.
ii) Mae'r paneli solar bellach wedi'u gosod yn Neuadd Penrhyn ac rydym bellach yn elwa ar drydan rhatach.

iii) Mae Cyngor y Ddinas yn gweithio ar y cyd â Storiel a Pontio ar brosiect dan arweiniad Cyngor Gwynedd i ailddatblygu'r ardal y tu allan i Storiel, sy'n cynnwys yr hen lawnt fowlio, yr ardal ar ochr Ffordd Deiniol i Storiel a'r ardal o amgylch y Gofeb Ryfel. Bydd y prosiect hwn yn gwella calon ddiwylliannol y Ddinas ac yn gwneud yr ardal yn haws i'w defnyddio.

**36/25 PENODI CYNGHORYDD I'R PROSIECT PONTYDD CYFEILLGARWCH**

Roedd y prosiect Pontydd Cyfeillgarwch, sy'n cael ei redeg ar hyn o bryd gan grŵp Cymdeithas Jamaica Gogledd Cymru, wedi gofyn am gefnogaeth y Cyngor gyda'r prosiect hwn yn y dyfodol. Gofynnodd y grŵp am gael Cynghorydd unigol wedi'i benodi iddynt i gynrychioli'r Cyngor ar ei ran.

**PENDERFYNWYD:** Penodi'r Cynghorydd John Wynn Jones yn gynrychiolydd ar ran y Cyngor ar gyfer y prosiect hwn.

**37/25 CEFNOGI NEWID ENW "SPINNIES" ABEROGWEN I "LLYN CELANEDD"**

*Roedd adroddiad am yr enw hanesyddol ar gyfer y "Spinnies" wedi'i ddosbarthu ymlaen llaw i'r aelodau cyn y cyfarfod.*

Erbyn y cyfarfod hwn, roedd y Cadeirydd wedi deall mai pleidlais ôl-weithredol o gefnogaeth gan y Cyngor hwn fyddai'r bleidlais i newid enw'r "*Spinnies*" i *"Llyn Celanedd"*. Roedd y cyngor cymuned cyfagos eisoes wedi cytuno ar y newid enw a chynigiwyd ceisio pleidlais o gefnogaeth gan y Cyngor hwn hefyd.

**PENDERFYNWYD:** Cefnogi newid enw'r *"Spinnies"* i *"Llyn Celanedd".*

**38/25 GWAHODD AC ARDDANGOS YR ANGEL CYLLYLL YM MANGOR**

Esboniodd y Cynghorydd Elin Walker Jones mai darn mawr o waith celf yw'r Angel Cyllyll a grëwyd i helpu i fynd i'r afael â throseddau cyllyll a'u hatal mewn Trefi a Dinasoedd ledled y DU. Mae wedi teithio'r rhan fwyaf o'r DU, a thrafodwyd y byddai'n fantais ac yn gyfle gwych iddo gael ei arddangos ym Mangor o ystyried yr achosion diweddar o droseddau cyllyll yn y Ddinas.

**PENDERFYNWYD:** Gwahodd a chroesawu'r Angel Cyllyll i Fangor.

**Daeth y cyfarfod i ben am 7.30pm**

CYFARWYDDWR DINESIG – Martin Hanks – CITY DIRECTOR